anthem.



Anthem FFWD>> 2024

**RHEOLWR CYNNWYS DIGIDOL PORTH ANTHEM**
**PECYN GWYBODAETH**
**Gorffennaf 2024**

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb yn Anthem a'r Porth.

Mae Anthem. Cronfa Gerdd Cymru yn elusen ifanc sydd ond yn agosáu at ei phum mlwyddiant. Rydym wedi bod yn adeiladu ein rhaglenni yn gyflym dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys ein Fforwm FFWD>> sy'n cynnwys pobl ifanc 16 – 25 oed sydd ag angerdd am gerddoriaeth yng Nghymru, Cronfa Atsain sy'n canolbwyntio ar gael gwared ar rwystrau i gerddoriaeth i bobl ifanc yng Nghymru, a Phorth Anthem sy’n cynnig cyswllt cyntaf i bobl ifanc yng Nghymru sydd am ddatblygu eu cerddoriaeth.

Bydd y rolau rydym yn eu cynnig nawr yn cynorthwyo'r cam nesaf ar gyfer Porth Anthem, gan dyfu ei bresenoldeb ac archwilio ei botensial i’r dyfodol. Bydd y tîm yn gweithio gyda phobl ifanc ledled Cymru i ledaenu gwybodaeth, creu cynnwys digidol newydd, a chynnal digwyddiadau rhwydweithio.

Mae Anthem yn cael ei rhedeg gan dîm bach amrywiol gyda rhai aelodau staff ar PAYE a rhai aelodau staff yn gweithio fel gweithwyr llawrydd. Caiff y tîm ei gefnogi gan grŵp cryf o ymddiriedolwyr o amryw gefndiroedd. Mae pwyslais cryf ar gymorth ar y cyd ac mae'n bwysig bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, yn gallu gwneud eu gwaith hyd eithaf eu gallu ac yn cael cyfle i ddatblygu eu hunain pan fyddant yn dod i weithio gydag Anthem. Pan fyddwn yn recriwtio, rydym yn chwilio am botensial ac angerdd.

Byddwn yn hapus i drafod y rôl gyda chi cyn i chi wneud cais, felly os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych eisiau trefnu galwad ffôn, anfonwch e-bost i mi:
rhian.hutchings@anthem.wales.

Rhian Hutchings, Prif Weithredwr Anthem



## YNGLŶN AG ANTHEM

Sefydlwyd Anthem. Cronfa Gerdd Cymru yn 2018 yn dilyn adroddiad gan Lywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd i gefnogi addysg gerddoriaeth yng Nghymru.

Gweledigaeth Anthem yw Cymru lle gall cerddoriaeth rymuso pob bywyd ifanc.

Credwn fod cerddoriaeth yn rym creadigol cryf i bobl ifanc sy’n hybu hunanfynegiant, datblygiad personol a lles.

Bydd Anthem yn creu cyfleoedd ar draws genres a chymunedau ac yn meithrin talent amrywiol i gymryd y camau nesaf at yrfaoedd cerddorol.

Mae Anthem yn sbardun ar gyfer cerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru, yn ariannu gwaith a fydd yn creu newid, yn gwneud cysylltiadau i ehangu gwaith partneriaeth, ac yn galluogi arferion gorau i ffynnu.

Mae Anthem yn ceisio sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth – hygyrchedd, cynwysoldeb, parch a gwahaniaeth – yn sail i bob maes yng ngwaith y mudiad a'i nod yw eu hybu o fewn ei fwrdd, ei arferion cyflogaeth ac ar draws ei waith. Mae Anthem yn ystyried bod ei gwaith yn gydweithredol, arloesol, cynhwysol a chreadigol ac yn waith sy’n ysbrydoli.

## PROSIECT PORTH ANTHEM

Datblygwyd Porth Anthem i greu pont i bobl ifanc i'r diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru. Yn 2022 fe wnaethom adeiladu platfform ar-lein lle gall pobl ifanc gael mynediad at gyfleoedd ym maes cerddoriaeth, gwybodaeth am yrfaoedd, straeon am gyfoedion a chysylltiadau i’r diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru. Fe wnaethom greu'r fersiwn gyntaf hon o'r Porth gan weithio

gyda gweithwyr proffesiynol ifanc ym maes cerddoriaeth a sefydliadau partner ledled Cymru. Ar draws y flwyddyn ddiwethaf rydym hefyd wedi cychwyn ar gymuned Discord ac wedi dechrau cynnal digwyddiadau ar-lein er mwyn tyfu'r gymuned honno.

Bellach mae gan Anthem gyllid yn ei le i ddatblygu'r Porth ymhellach ar draws yr 19 mis nesaf. Ein huchelgais yw creu profiad datblygu proffesiynol ar-lein o ansawdd uchel i bobl ifanc wedi'i arwain gan leisiau creadigol ifanc. Rydym am i bob person ifanc sy'n ymweld â'r Porth deimlo bod croeso iddynt ar unrhyw lefel i gerddoriaeth, eu bod yn cael eu cynrychioli yn eu maes heb unrhyw fygythiad, ac i ddysgu sut i wella eu gyrfaoedd gan weithwyr proffesiynol profiadol yng Nghymru yn y ffordd orau bosibl.

**Y RÔL**

Rydym yn dymuno penodi tri aelod i dîm y Porth i hybu twf y Porth ar draws yr 19 mis nesaf: Rheolwr Prosiect y Porth, Rheolwr Cynnwys Digidol y Porth a Rheolwr Cymuned Discord.

Bydd y Rheolwr Cynnwys Digidol yn gyfrifol am reoli gwefan y Porth, cynhyrchu'r cynnwys digidol i safon uchel, ac adeiladu presenoldeb y Porth ar y cyfryngau cymdeithasol.

Bydd tîm y Porth yn gweithio'n agos gyda Phrif Weithredwr a Rheolwr Cyfathrebu Anthem i ddatblygu'r Porth ar draws y cyfnod cyllido.

Bydd gweithgarwch y prosiect yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu'r platfform gwe i ddarparu taith gliriach i bobl ifanc sy'n ei ddefnyddio
- Comisiynu 40 adnodd arall ar gyfer y Gofod Gwybodaeth
- Comisiynu 3 cyfres o bodlediadau a 6 gweminar dan arweiniad gweithwyr proffesiynol ifanc ym maes cerddoriaeth yng Nghymru
- Tyfu cynnwys Cymraeg ar y Porth
- Cydweithio â phartneriaid allweddol Anthem ar y prosiect, gan gynnwys y Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol

- Cynnal digwyddiadau rheolaidd ar sianel Discord Anthem a thyfu ein cymuned Discord
- Gwerthuso cyrhaeddiad ac effaith gweithgarwch y Porth

**SUT I WNEUD CAIS**

Darllenwch y disgrifiad o'r rôl a manyleb y person isod.

Llenwch y ffurflen gais ar y ddolen hon:

https://airtable.com/appcEyNBN2q3Y0i8V/pag76CYxRld6Pafau/form

Bydd gofyn i chi lanlwytho

- CV sy'n amlinellu eich profiad presennol
- Llythyr eglurhaol neu fideo yn esbonio pam fod gennych ddiddordeb a pham eich bod yn gymwys ar gyfer y rôl

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw dydd Llun 19eg Awst am 5pm.
Byddwch yn cael gwybod os ydych wedi cael eich gwahodd am gyfweliad erbyn dydd Gwener 23ain Awst.
Caiff y cyfweliadau eu cynnal ar ddydd Iau 29ain a dydd Gwener 30ain Awst.

Os oes gennych unrhyw ofynion arbennig eraill i'ch galluogi i wneud cais am y rôl hon, rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost i rhian.hutchings@anthem.wales

**DISGRIFIAD O RÔL RHEOLWR CYNNWYS DIGIDOL**

Contract: cyfnod penodol o 3 Medi 2024 i 31 Mawrth 2026
Cyflog: 14 awr yr wythnos ar gyfradd o £13 yr awr
Lleoliad: Gall ymgeiswyr fod wedi'u lleoli unrhyw le yng Nghymru. Caiff cyfarfodydd cynllunio eu cynnal yn swyddfeydd Anthem yng Nghaerdydd. Mae cyllideb deithio ar gael i'ch helpu i fynd i'r cyfarfodydd.
Yn gyfrifol i: Prif Weithredwr Anthem

Bydd Rheolwr Cynnwys Digidol y Porth yn gyfrifol am reoli'r wefan, rheoli cynnwys digidol, creu fideos a chapsiynau, a chreu graffeg ac asedau i'r cyfryngau cymdeithasol.

Tasgau

- Rheoli gwaith cynllunio'r Porth ac amserlen waith, gan sicrhau bod targedau misol yn cael eu cyflawni
- Gweithio yn unol â chyllideb y Porth a'r gwariant misol
- Rheoli comisiynau ar gyfer adnoddau, podlediadau a gweminarau gan weithio ar y cyd â Rheolwr Prosiect y Porth
- Rheoli gwefan y Porth
- Cyflawni cynnwys ar-lein i safon uchel, gan gynnwys cynhyrchu fideos, cydymffurfio â chanllawiau brandio, creu graffeg yn ôl yr angen, a chapsiynau
- Gweithio gyda Rheolwr Cyfathrebu Anthem i adeiladu presenoldeb cryf ar gyfer y Porth ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Anthem
- Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau allweddol Anthem gan gynnwys Diogelu, GDPR, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Chod Ymddygiad.

Nodweddion

- Gofod swyddfa yn swyddfeydd Anthem - Bizspace, 202 Tŷ Trafalgar, 5 Plas Fitzalan, Caerdydd, CF24 0ED
- Y gallu i deithio i fynychu cyfarfodydd neu i fynychu cyfarfodydd ar-lein
- Y gallu i gynorthwyo mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb yn ôl yr angen
- Gwybodaeth ymarferol am blatfformau digidol, gan gynnwys Zoom, Google, Airtable, Canva, meddalwedd cynhyrchu a golygu fideos, Discord

Manyleb y Person

| Gwybodaeth a Phrofiad |
| --- |
| Gwybodaeth am reoli prosesau |
| Gwybodaeth am y diwydiant cerddoriaeth a thirwedd cerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru |
| Gwybodaeth am gynhyrchu digidol a chreu cynnwys |
| Gwybodaeth am sut mae pobl ifanc yn ymgysylltu ar-lein yng Nghymru ac angerdd dros wneud iddo weithio iddyn nhw |
| Gwybodaeth am y cyfryngau cymdeithasol |
| Sgiliau a Galluoedd |
| Sgiliau trefniadol a rheoli prosiectau cryf |
| Gweithiwr manwl sy’n rhoi sylw i fanylion |
| Sgiliau dadansoddol da, gyda'r gallu i gasglu, dehongli ac asesu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau a nodi materion allweddol |
| Sgiliau cyfryngau digidol a chreu cynnwys rhagorol gan gynnwys cynhyrchu fideo, capsiynau, dylunio graffeg a chyfryngau cymdeithasol |
| Cyfathrebu’n rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig |
| Y gallu i weithio'n ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg |
| Rhinweddau Personol |
| Chwaraewr tîm ardderchog sy'n ysbrydoli ymddiriedaeth |
| Yr agwedd i allu gweithredu’n hyderus – yn dangos menter ac yn gweithio gyda goruchwyliaeth ysgafn |
| Uniondeb personol — tystiolaeth o ddisgresiwn, gonestrwydd, bod yn agored |
| Dymunol |
| Sgiliau Cymraeg cryf |
| |